

## Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n arbennig am Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn i Dduw amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn ei hangen. Cofiw'n hefyd am Kitty Parry (Llanefydd) sy'n parhau'n yr Inffirmari. Hyderwn y bydd yn gwella'n fuan ac y bydd iddi brofi daioni'r Arglwydd yn ei chynnal yn ei hangen. Mae Elizabeth Hughes (Llansannan) bellach wedi symud i gartref Plas Eleri yn Ninbych. Gobeithiwn y bydd yn setlo yno'n fuan ac y bydd yn profi gofal a grym ein gweddiâu drosti.
- Llongyfarchiadau i Lowri Davies (Llansannan) a Daniel ar enedigaeth mab – Tomos Hari, brawd bach i Alisha ac Efan. Diolchwn i Dduw am ei ddaioni tuag atynt fel teulu.
- Dymuniadau gorau i holl blant a ieuenctid y Fro fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili yr wythnos hon!

## I ddod

- **DARLITH "MARI JONES AC ANN GRIFFITHS – Y BEIBL, YR EMYN A THOMAS CHARLES"** gan yr Athro E. Wyn James yn Ffestri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 12fed–13eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565. Mae angen archebu lle erbyn Mai 29ain.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
- **SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 28ain yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. **"i-Grist"** – oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yna, yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mary Jones yn Llany Cil i gael picnic a chyfle i gymdeithasu, cyn cael tro o gwmpas y Ganolfan. Yna, ein gobaith yw cynnal **"Oedfa o Fawl"** yn y Bala cyn troi am adre (manyllion yr oedfa i'w gadarnhau). Croeso i bawb!
- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHÁU** ar Mehefin 29ain–Gorffennaf 1af yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Siaradwr gwadd: Y Parch. Wes Sutton, Cyfarwyddwr Acorn Christian Healing Foundation. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones (01978) 846151 / [geraint.w.jones@btinternet.com](mailto:geraint.w.jones@btinternet.com) am fwy o wybodaeth
- **DIWRNOD BACH I'R BREIN MAWR** yn Nant Gwrtheyrn dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd o 10.30 – 4.00. Rhywbeth i bawb o bob oed – Ffydd, Beibl, Hwyl, Gwirionedd, Cerddoriaeth, Mawl. Mwy o wybodaeth ar y wefan: [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org).



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24<sup>ain</sup> Mai 2015

## Darlleniad y Dydd

Exodus 18:13-23

(BCND tud.67 / BCN: tud.61)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)


Mae'n ffrainc cael diolch i'r Arglwydd heddiw am bawb sydd wedi bod yn hyrwyddo wythnos Cymorth Cristnogol ym mhentrefi'r Fro a thrwy wneud hynny uno hefo'r dystiolaeth Gristnogol fawr ar draws y wlad yn yr ymdrech i ddelio hefo tldi'r byd ac angen dirfawr teuluoedd yn Ethiopia a Nepal. Does dim angen i mi ymhelaethu ar yr hyn a welsom ar y cyfryngau, a hynny eilwaith o fewn wythnosau, a pharhawn i weddio dros yr ymdrechion dyngarol sy'n ceisio delio hefo canlyniadau'r daeargrynfeydd ofnadwy.

Yn Ethiopia hefyd gweddiwn y bydd yr arian yn hwyluso gwell byd a chyfleon newydd i deuluoedd sy'n byw ar ychydig iawn ac sy'n ceisio codi allan o dlodi trwy chwys ac ymdrech. Nid cardod dall yw rhoi yn yr achos yma ond cyfraniad bwriadol i bwrpas arbennig fel y clywsom yn ystod yr amrywiol wasanaethau. Mae delio hefo angen mawr y teuluoedd hyn yn dasg enfawr a hir-dymor ac yn y darlleniad heddiw cawn enghraifft dda o drefn lywodraethol gynnar lle mae cyfrifoldebau yn cael eu rhannu i wahanol lefelau er mwyn delio hefo anghenion y genedl ifanc dan arweiniad Moses.

Gwelwn fod datganoli yn ffurf hynafol iawn o lywodraethu! Cyngor Jethro, ei dad-yng-nghyfraith, i Moses oedd datganoli oddi wrtho'i hun i ddynion eraill a fyddai'n gweithredu barn mewn grwpiau o fil o bobl, cant, hanner cant, a grwpiau o ddeg. Roedd gofyn i'r bobl hynny a fyddai'n gweithredu barn fod yn bobl gyfrifol, duwiol a gonest, fyddai hefyd yn gwrthod derbyn breib o unrhyw fath. Ysgafnhau'r baich ar Moses oedd y nod fel y byddai ef yn cadw'i egni i ddelio hefo achosion anodd.

Gweddiwn felly dros y timau sy'n gweithredu i adfer bywyd yn Nepal ac yn Ethiopia – tимоedd o ddeg fydd rhai yn siŵr, eraill yn hanner cant, cant, a mil o bobl. A gweddiwn dros y rhai sy'n arwain ar lefel cenedlaethol a rhyng-genedlaethol ar iddynt weithredu'n gyfrifol, duwiol a gonest ac heb dderbyn llwgr-wobr.

Croeso i oedfaon y dydd heddiw a diolch eto am eich holl ymdrechion o blaid y tlawd. Dyrchafu'r tlawd o'r llwch a wna'r Arglwydd yn ei ras a diolchwn iddo â chalonnau llawen am ei ryfeddol ras!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

*Anwain*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Marc 6: 53-56 (BCND tud.45 / BCN: tud.41)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres ddiwethaf ar Y Deg Gorchymyn.
- Mercher – 27<sup>ain</sup> • **Adnabod – Grŵp Mair** yn cyfarfod yn y Granar, Llansannan am 7.30.
- Iau – 28<sup>ain</sup> • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn ym Mheniel am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Cynhelir Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at yr argyfwng yn Nepal. Bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron hefyd am 10.00 a bydd trip Ysgol Sul y plant yn mynd i Gelli Gyffwrdd.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Iau – 28<sup>ain</sup> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb! \*SYLWCH AR Y NEWID DYDDIAD\*
- Sul nesaf – 31<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.